

Dehongli Terfysg Tonypandy ar y Teledu

Mae digwyddiadau terfysg Tonypandy a'u goblygiadau wedi cael eu dehongli mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Mae hanes terfysg Tonypandy yn hanes cryf sydd wedi byw yng nghof y Cymry. Gyda dyfodiad hanes poblogaidd ar y teledu, mae rhaglenni hanes wedi cryfhau y cof hynny o ddigwyddiadau y terfysg yn Nhonypandy. Cryfder y rhaglenni am onypandy yw bod nhw wedi apelio at y gwylwyr ac wedi gwthio digwyddiadau eraill allan o'n feddyliau. Nad yw streiciau a therfysgoedd eraill y cyfnod megis Tarenni a Thredegar yn cael eu cofio. Wrth i Donypandy cael ei gofio yn rhaglenni hanes ar y teledu, mae'r hanes wedi dod o hyd i leisiau cryf sydd wedi adrodd hanes y terfysg. Yn yr 1980au roedd hanes Tonypandy wedi dod i'r amlwg ar y teledu gyda'r gyfres *Wales! Wales?* gan Dai Smith. Yn ddiweddar mae ton newydd o raglenni ar hanes terfysg Tonypandy wedi dod i'r amlwg gydag Eddie Butler yn edrych ar y terfysg yn ei *The Tonypandy Riots – A New History*. Hefyd, mae Huw Edwards wedi cyflwyno rhaglenni ar ddigwyddiadau terfysg Tonypandy yn *The Story of Wales a Creu'r Cymru Fodern*. Yn sicr, mae'r dulliau o adrodd hanes y terfysg yn hollol wahanol o raglen i raglen. Wrth edrych ar y dulliau gwahanol o adrodd hanes yn y rhaglenni, mae modd gweld y pwysleisiau gwahanol mae pob rhaglen yn cyfleu. Mae arddull amrywiol pob rhaglen yn elfen effeithiol i wneud i'r hanes aros yn y cof poblogaidd. Wrth ystyried cydestun y rhaglenni, rydym gallu gweld pam maen nhw wedi'u cynhyrchu fel datganiadau cryf gwleidyddol. Mae rôl y cyflwynydd a'u personoliaeth yn bwysig i ystyried hefyd, ambell i waith y cyflwynydd sydd yn gwthio'r hanes. Elfen bwysig ydy'r gwahaniaeth o gynnwys ffactorau strwythurol a rôl yr unigolion yn ystod y terfysg. Llaw yn llaw gyda'r ffactorau strwythurol mae'r rhaglenni yn ffitio mewn i'r fframwaith o gynhyrchu 'hanes o'r gwaelod'. Hefyd mae'r dystiolaeth a'r mathau o dystiolaeth mae'r rhaglenni yn defnyddio yn allweddol i'r hanes, er mwyn rhoi hygredd i'r rhaglen.

Wrth ystyried cyd-destun y rhaglenni, rydym gallu deall y rheswm pam cafodd y rhaglenni eu cynhyrchu. I gychwyn gyda *Wales! Wales?* gan Smith, cafodd y rhaglen ei gynhyrchu yn 1984. Goblygiadau amlwg hynny oedd, bu hwn y cyfle i Smith i dynnu paralelau rhwng y digwyddiadau a chymerodd lle yn Nhonypandy a'r rheini oedd yn cymryd lle adeg y rhaglen, sef y streic glo yn 1984. Mae blas y streic yn 1984 yn cael ei deimlo yn y rhaglen, yn enwedig wrth i Smith gyfeirio tuag at y digwyddiadau cynnar yn y streic yn 1984 a Thonypandy.¹ Nid dim ond y streic yn 1984 mae Smith yn tynnu paralel, mae ef yn plethu tebygrwydd amodau terfysg Tonypandy gyda therfysgoedd eraill ym Mhrydain hwyrach yn yr ugeinfed ganrif, megis Brixton a Toxteth.² Yn sicr, mae Smith yn gwneud hwn i gyfiawnhau y terfysg o safbwynt y gweithwyr a phobl gyffredin Tonypandy trwy niwlo'r cysylltiad rhwng y gorffennol a'r presennol. Heb law am *Wales! Wales?* mae'r rhaglenni eraill yn fodern ac yn fwy cyfoes na rhaglen Smith. Marcio pen-blwydd y terfysg Tonypandy yw pwrpas rhaglen Butler. I raddau, pwrpas y rhaglen yw actio fel dyfais i ni beidio anghofio ein hanes ac i roi bywyd i'r hanes mewn oes fodern, er mwyn rhoi parhad i'r hanes yng Nghymru ôl-ddiwydiannol. Ysgrifennodd Carolyn Hitt am ganmlwyddiant Tonypandy a'r rhaglen mewn modd lliwgar, fel petai mai dyletswydd gyda ni i adnabod hanes ein cyndeidiau.³

Wrth edrych ar gyd-destun cynhyrchiad *The Story of Wales*, mae'n wahanol i raglenni Smith a Butler. Pwrpas *The Story of Wales* oedd ehangu ac esblygu'r hanes poblogaidd sydd wedi cael ei wneud ar Gymru ac i edrych ar hanes Cymru trwy lygaid newydd yr unfed ganrif ar hugain.⁴ Nawr mae Cymru yn lle gwahanol i'r un a bodolodd yn yr 1980au, mae'r ffaith hynny yn cyfiawnhau gwaith Edwards o greu cyfres hanes newydd i Gymru newydd.⁵ Rydym yn cael teimlad o hynny, wrth i'r gyfres peidio â chydfurfio i arddull *The Dragon Has Two*

¹ Smith (1984) (45:44).

² Smith (1984) (46:37).

³ Hitt (2010).

⁴ Edwards (2012).

⁵ Edwards (2012).

Tongues, gwelwn ffordd newydd o ddehongli digwyddiadau Tonypandy. Esiampl dda o hynny yw'r mudiad oddi wrth rethreg asgell chwith gadarn Gwyn A. Williams. Mae mwy o ddadansoddiad gwrthrychol wrth i'r Athro Chris Williams esbonio canlyniadau Tonypandy i ni.⁶ Cyd-destun y gyfres *Creu'r Cymru Fodern* oedd sefydlu fersiwn Cymraeg o *The Story of Wales*, mae hynny yn glir gyda'r benthyciad o ddelweddau, golygfeydd a cherddoriaeth. Ond, ffocws arall y gyfres ydy rhoi dimensiwn hanes teulu Edwards mewn i'r gyfres. Serch y gorliwio ar adegau a pharalel gyda math o '*Who Do You Think You Are?*' i Edwards, mae'r gyfres yn ceisio adlewyrchu hanes y Cymry Cymraeg yn nigwyddiadau pwysig moderneiddio Cymru.⁷

Yng ngeiriau Ludmilla Jordonova, mae'r cyhoedd yn berchen ar ddigwyddiadau y gorffennol a swydd yr hanesydd yw gofyn cwestiynau am yr hanes hynny a'u rhoi mewn i gyd-destun.⁸ Yng nghyd-destun dehongli terfysg Tonypandy mae hynny yn bwysig, yn enwedig wrth i raglenni fel *Wales! Wales?* a *The Tonypandy Riots – A New History* adrodd eu dehongliadau plwyfol o'r terfysg. Mae rôl y cyflwynydd yn y rhaglenni yn bwysig i ddadansoddi, a sut mae'r cyflwynydd yn cyfleu'r hanes. Ym mhob un o'r rhaglenni ar Donypandy, mae personoliaeth y cyflwynydd ac enwedig pwy ydynt yn cael dylanwad mawr.⁹ Yn achos Smith, mae ef yn portreadu ei hun fel dyn sydd yn berchen ar hanes Tonypandy trwy sôn am ei gysylltiadau gydag ardal Tonypandy.¹⁰ Serch y ffaith mae ef yn hanesydd academiaidd, mae ef yn ddyn cyffredin o Donypandy ac mae'r portread hynny yn bwerus i gael y gynulleidfa i uniaethu efo Smith. Yn debyg i Smith, mae'r defnydd o Butler yn *The Tonypandy Riots – A New History* yn bwerus iawn achos mae'r gynulleidfa yn gyfarwydd â'i gyflwyno. Mae Butler yn gredadwy achos ei gyfarwydd, serch y ffaith nad yw

⁶ Edwards (2012) (47:58).

⁷ Edwards (2014).

⁸ Jordonova (2000), t. 155.

⁹ Gray ac Bell (2013), t. 51.

¹⁰ Smith (1984) (06:10).

ef yn hanesydd academiaidd.¹¹ I gymharu â Smith a Butler, dydy'r ddau ddim yn dod yn agos i statws a phŵer Edwards. Rydym yn ymddiried yn Edwards yn debyg i Butler, rydym yn cymryd yn ganiataol beth mae ef yn dweud. Mae Edwards yn drysor cenedlaethol. Trwy ddarlledu newyddion Prydeinig mae ef yn atgoffa'r Deyrnas Unedig mae Cymru yn bodoli.¹² Yr elfen bwerus o statws Edwards sy'n rhoi hygredd i'w *The Story of Wales* a *Creu Cymru Fodern*. Mae personoliaeth y cyflwynwyr yn debyg i raddau. Y patrwm tebyg rhyngddynt yw mai dynion gwyn, canol oedran, gyda graddau prifysgol ydyn nhw. Hwytneb y rhaglenni ydy'r dynion yma, nhw sy'n gwthio'r rhaglen i fod yn boblogaidd ac yn gwthio'r stori ymlaen.

Y cyflwynwyr pwerus megis Smith, Butler ac Edwards, sy'n domiwynyddu. Nhw sy'n clymu popeth at ei gilydd megis y lluniau, cerddoriaeth a golygfeydd sy'n cael eu hail-greu gan actorion.¹³ Wrth iddynt feistroli eu pŵer cyflwyno, maen nhw yn ein tynnu mewn i'r rhaglen gyda'r defnydd o iaith liwgar. Mae Butler yn gwneud hwn yn llwyddiannus yn ei agoriad trwy ddisgrifio'r terfysg fel gornest enfawr rhwng a glöwyr ar un llaw a'r perchnogwyr, heddlu, y fyddin a Winston Churchill ar y llaw arall.¹⁴ Roedd Carolyn Hitt wedi adlewyrchu ac ategu i gyffro Butler am y terfysg trwy bwysleisio'n gryf am y cof poblogaidd o glöwyr yn ymladd meistri.¹⁵ Hefyd, mae Edwards yn cyflwyno'r terfysg fel ffrwydriad o weithwyr yn brwydro yn erbyn perchnogion.¹⁶ Bwriad Smith yn ei agoriad ef yw cadarnhau y delwedd o löwyr yn gorfod ymladd ffigurau mawr megis Churchill.¹⁷ Yn y bôn mae'r tri ohonynt yn lliwio'r digwyddiadau ond mae hynny yn broblematic, yn enwedig yn achos cyflwyniadau Butler ac Edwards. Yn wahanol i Smith, nad yw Butler nac Edwards yn haneswyr academiaidd, ac i raddau dim ond yn darllen sgript i gamera ydyn nhw. Lle mae

¹¹ Gray a Bell (2013), t. 51.

¹² Gray a Bell (2013), t. 54.

¹³ Gray a Bell (2013), t. 54.

¹⁴ Butler (2010) (01:00).

¹⁵ Hitt (2010).

¹⁶ Edwards (2012) (46:14).

¹⁷ Smith (1984) (agoriad).

Smith gallu mynd mewn yn ddyfnach i gyflwyno'r digwyddiadau, mae Butler ac Edwards yn gorfod symleiddio pethau. Yr esiampl o Butler yn symleiddio digwyddiadau yw cymharu'r terfysg fel gornest rygbi rhwng y glöwyr a'r perchnogion, a sut mae hynny'n cael ei ddyfarnu.¹⁸ Mae'n broblematig wrth edrych ar gyflwyniad Edwards a'i ddarn i gamera ar Donypandy yn *Creu'r Cymru Fodern*. Sieryd Edwards am ei deulu yn dystion i'r terfysg, ac rydym yn neidio yn syth mewn i olygfa o Donypandy â cherddoriaeth pantomeim yn ein harwain at Edwards yn honni i ni, mai brwydr nerthol rhwng y glöwyr a'r perchnogion oedd y terfysg.¹⁹ Y broblem gydag Edwards yn *Creu'r Cymru Fodern*, yw ei arweiniad sy'n neidio i bob digwyddiad heb eglurhad.²⁰ Yn sicr mae gormod o orgyffwrdd dryslyd yn ei *Creu'r Cymru Fodern*, mae'r sefyllfa unigryw yn cael ei bortreadu o raglen hanes Edwards 'Who Do You Think You Are?' a hanes terfysg Tonypandy. Mae'r esboniad o ddigwyddiadau yn Nhonypandy yn well gyda'r elfen ffres o'r defnydd o hanesydd academiaidd yn *The Story of Wales* i esbonio goblygiadau y digwyddiadau.²¹ Yn amlwg felly nad oes cyfyngiadau yn *The Story of Wales*, nad oes angen hanesydd academiaidd sy'n medru'r Gymraeg sydd ar goll yn *Creu'r Cymru Fodern*.

Yn y rhaglenni, mae'r pwyslais o edrych ar ffactorau strwythurol yn erbyn rôl unigolion yn ystod y terfysg yn newid o raglen i raglen. Wrth edrych ar Donypandy, mae modd cynnwys y ddau gan mai'r ddau wedi cael effaith ar y digwyddiadau a sut mae Tonypandy yn cael ei gofio. I ddechrau, mae rôl yr unigolion yn y terfysgoedd wedi cael ei edrych arno yn drylwyr. Ym mhob un o'r rhaglenni, mae'r uwcholeuad o Churchill yn gyffredin. Bu pob rhaglen yn edrych ar Churchill fel y ffigwr mawr a oedd wedi cael dylanwad mawr ar y digwyddiadau yn Nhonypandy. Nad oes modd osgoi ei le yn yr hanes. Mae ei driniaeth yn newid o raglen i raglen ond mae pob un yn edrych arno trwy lygaid

¹⁸ Butler (2010) (02:03).

¹⁹ Edwards (2014) (31:07).

²⁰ Matthews (2012), t. 71.

²¹ Edwards (2012) (47:01).

amhoblogaidd. Wrth ddelio gyda Churchill, mae Smith yn gyflym i nodi mai fe oedd wedi caniatáu i rymoedd megis yr Heddlu Metropolitan a milwyr i ddychwelyd ar yr ardal fel modd o gadw trefn.²² Churchill a'i benderfyniadau sydd yn gyrru'r hanes gyda Smith ym mhellach gan ddweud wrthom ni, mai Churchill oedd wedi gorchymyn y defnydd o filwyr os oedd trais neu anhrefn wedi datblygu.²³ I gyd-fynd â'r gyfres, sieryd Smith yn ei lyfr bod Churchill yn anghywir i honni nad oedd trais, pan fu glöwr wedi marw o gleifion i'w ben ar ôl gwrthdaro â'r heddlu.²⁴ Gyda'r dehongliad hwn, mae Churchill yn sicr yn domiwnyddu. Yn yr achos o ffocws cryf gan Smith ar Churchill, rydym dim ond yn clywed am Churchill oherwydd mae'n cyd-fynd â diddordeb Smith.²⁵ Mae Butler ac Edwards yn ceisio osgoi defnyddio Churchill fel y ffigwr allweddol a oedd hwyneb drwg deimlad yn Nhonypanydy. Wrth gwrs, mae cyfeiriadau tuag at Churchill ond nad yw'r rhaglenni yn cael eu domiwnyddu ganddo. Yn lle, mae'n ffres i weld unigolion eraill yn cael eu uchwleuo, mae'n adfywio'r dadansoddiad o'r terfysg i ni trwy gynnig dehongliad gwahanol. Yn *The Tonypanydy Riots – A New History*, mae Butler yn adrodd i ni pwysigrwydd pobl fel yr asiant undebol William Abraham (Mabon) a'r perchnogwr glo D. A. Thomas.²⁶ Trwy ffocysu ar unigolion megis Mabon a D. A. Thomas, rydym yn deall pam y bu gwrthdaro rhwng y perchongwyr a'r glöwyr yn y man cyntaf yn lle dehongliad Smith o löwyr arwrol yn erbyn Churchill. Mae'r dadansoddiad o'r hollt yn y trafodaethau rhwng Mabon a D. A. Thomas yn soffistigedig, yn enwedig pan mae Butler yn nodi pam bu'r glöwyr yn streicio gyda'r teimlad o ddod i ben â chyfaddawdu.²⁷

I gyferbynnu â'r ffocws ar unigolion yn ystod y streic a'r terfysg, mae'r dadansoddiad o ffactorau strwythurol yn holl bwysig i dorri ar draws y dynion mawr yn hanes Tonypanydy.

²² Smith (1984) (20:14).

²³ Smith (1984) (20:14).

²⁴ Dai Smith (1984), t. 57.

²⁵ Jones (1985), t. 33.

²⁶ Butler (2010) (16:36).

²⁷ Butler (2010) (19:07).

Wrth geisio deall pam roedd y terfysg wedi datblygu, mae angen rhoi sylw i'r ffactorau strwythurol. Y ffactor strwythurol sy'n derbyn llawer o sylw oedd amodau gwaith y glöwyr. Roedd yr amgylchiadau yn galed ac mae Edwards yn nodi hynny, trwy honni roedd cynnydd yn y dicter ymysg glöwyr.²⁸ Rydym yn cael disgrifiad trylwyr o amgylchiadau yn *Wales! Wales?* hefyd. Roedd cyn-newyddiadurwr yr Arglwydd Brockway yn sôn am amodau gwael, megis ymlusgo trwy'r lofa a gweithio gyda'r perygl o ddŵr yn gorlifo.²⁹ Yn ogystal â'r amodau caled, mae Edwards yn uwchleuo ffactorau strwythurol eraill megis y gost o fyw a chyflogau statig y cyfnod.³⁰ Gyda ffactorau strwythurol negyddol yn adeiladu, mae rhwystredigaeth y bobl gyffredin yn Nhonypandy yn cael ei gyfleu i ni fel un o'r rhesymau allweddol arweiniodd at y streicio a ddatblygodd mewn i derfysg. Trwy uwchleuo ffactorau strwythurol, mae'r rhaglenni yn aralleirio K. O. Morgan i raddau, yn enwedig gyda'r ffactorau strwythurol yn pentyrru i gynyddu'r gost o fyw.³¹ Mae hwn hefyd yn cael ei amlygu gan Louise Miskell hefyd. I gynyddu'r costau o fyw, daeth y defnydd o bren gwastraff fel tanwydd cartrefol i ben.³² Mae hynny yn ein helpu i ddeall geiriau Phil Carradice o pam mae'r Cymry yn bobl sy'n barod i wrthdystio, sef ymateb i ffactorau strwythurol anffafriol.³³ Yn *The Tonypandy Riots – A New History*, mae'r rhaglen yn nodi'r ffactor iechyd hir dymor o'r effaith o glefyd ar yr ysgyfaint ar ôl blynyddoedd o anadlu llwch glo tra gweithio.³⁴ Mae'r ffactorau strwythurol yn allweddol i symud i ffwrdd o ddehongliad syml o ffigyrau mawr yn gwrthdaro yn erbyn ei gilydd. Yn lle, rydym yn deall pam y bu pobl yn anhapus a pam y bu glöwyr yn gofyn am driniaeth well yn eu gweithle.

I glymu unrhyw hanes ar y teledu at ei gilydd, mae angen defnyddio modd o gynnig tystiolaeth i roi hygredd i'r hanes. Ar y teledu, mae'n anodd i hanes ymrwymo i'r rheolau o

²⁸ Edwards (2012) (45:45).

²⁹ Smith (1984) (14:55).

³⁰ Edwards (2012) (45:50).

³¹ Morgan (1981), t. 146.

³² Miskell (2011), t. 144.

³³ Carradice (2011).

³⁴ Butler (2010) (10:15).

ddod o hyd i ffynonellau a'u dadansoddi mewn modd gwrthrychol heb wyrddroi gwybodaeth y ffynhonnell.³⁵ Gyda digwyddiad fel Tonypandy, mae argaeledd ffynonellau yn amrywiol ac yn broblematic. Gyda'r achos o ddefnyddio ffilm archif, nad oedd y digwyddiadau wedi cael eu ffilmio, a hefyd, nad oes ffilm newyddion ar gael i ddangos lluniau o'r digwyddiadau. Felly, mae'n anodd cyfleu digwyddiadau i'r gynulleidfa fodern ar y teledu sydd yn disgwyl i weld ffilm archif.³⁶ Esiampl o ddefnyddio ffilm fel tystiolaeth i gyfleu caledrwydd gwaith, yw golygfa o ddynion yn gweithio o dan ddaear mae Edwards yn defnyddio yn *The Story of Wales*.³⁷ Mae hwn yn broblematic am y rheswm mae'r ffilm wedi cael ei ailadrodd mewn nifer o gyfresi eraill sydd wedi delio â hanes glo yng Nghymru. Ble mae ffilm archif yn absennol, mae'r rhaglenni gorfod dibynnu ar ail greu digwyddiadau. Mae'n dderbyniol i lenwi bwch lle nad oes ffilm archif, ond ambell i waith, mae gormod o bwyslais ar ail-greu ac ail-actio.³⁸ Nad oedd gwir angen gweld llaw rhywun yn ysgrifennu ar ddarn o bapur i ddynodi Churchill yn ysgrifennu neges i rywun yn *Wales! Wales?*.³⁹ Ffordd arall o gyfleu tystiolaeth oedd y defnydd gan Smith o ddogfennau achos llys yn erbyn terfysgwyr, ac ail actio'r achos llys.⁴⁰ Modd gwahanol o ddefnyddio tystiolaeth yw defnyddio lluniau y cyfnod, mae pob rhaglen yn gwneud defnydd da o hyn, a'r defnydd o ddogfennau y cyfnod. Mae rhaid canmol *The Tonypandy Riots – A New History* am wneud hwn. Rydym yn gweld golygfa o Butler mewn archifdy yn darllen i gamera o ddogfennau heddlu y cyfnod, yn cyfleu difrifoldeb y sefyllfa gyda gofynion am ragor o bastynau.⁴¹ Yn sicr mae ail-greu yn boblogaidd iawn ond mae mwy o glirder gyda ffordd Butler o drafod y dogfennau eu hun.

Yn y bôn, mae'r rhaglenni yn gynrychiadau hanes cymdeithasol. Serch y ffaith mae pob un o'r rhaglenni yn rhoi pwyslais ar unigolion a sut maen nhw'n ymateb i'w gilydd, mae

³⁵ Cigognetti a Sorlin (2010), t. 28.

³⁶ Hendriks (2001), t. 55.

³⁷ Edwards (2012) (45:43).

³⁸ de Groot (2008), t. 106.

³⁹ Smith (1984) (19:52).

⁴⁰ Smith (1984) (28:57).

⁴¹ Butler (2010) (03:45).

mwy o bwyslais cadarn ar hanes cymdeithasol. Yn sicr, mae'r rhaglenni hanes yn ffitio mewn i'r fframwaith hanes o greu 'hanes o'r gwaelod'. Hynny yw, symud i ffwrdd o'r syniad o gyfryngiad unigolion sy'n penderfynu beth sydd yn cael ei gyflawni ym materion o bwys, a phwysleisio mai pobl gyffredin yw'r deinamo sy'n gwthio hanes ymlaen. Mae'r thema o hanes cymdeithasol yn gryf yn *The Tonypandy Riots – A New History*. Mae Butler yn cyflwyno i ni aelodau amrywiol, gwrywaidd a benywaidd, o gymdeithas Tonypandy i ddod o hyd i beth mae'r hanes yn meddwl iddyn nhw a'u cysylltiadau.⁴² Wrth ddefnyddio pobl gyffredin i archwilio'r hanes, mae teimlad ffres a gobeithiol yn y rhaglen, gall unrhywun cysylltu gyda'i hanes sy'n elfen cryf trwy gydol y rhaglen. Mae ysgrifau Smith yn ffitio mewn i'r fframwaith o 'hanes o'r gwaelod' ac mae ei raglen ar Donypandy yn cyd-fynd gyda'i fodd hynny. Efallai yn fwy na Butler, rydym yn cael rhethreg asgell chwith oddi wrth Smith gan mai ei duedd o ysgrifennu hanes yn cyd-fynd gyda thraddodiad sosialaidd. Wrth egluro i ni nad oes cofgolofn gyda dyn bu farw ar ôl y terfysg, mae Smith yn ei drîn fel merthyr.⁴³ Hyd yn oed gyda *Creu'r Cymru Fodern*, mae Edwards yn rhoi darlun o hanes cymdeithasol i ni, wrth iddo ddisgrifio hanes ei deulu yn gorfod byw a thystio digwyddiadau megis terfysg Tonypandy.⁴⁴ Hefyd yn *The Story of Wales*, mae Edwards yn rhoi elfennau o hanes cymdeithasol i ni, ond yn wahanol i *Creu'r Cymru Fodern* mae Edwards yn mynd ymhellach gyda'i ddisgrifiadau mewn modd hanes llafur. Trwy ddefnyddio arbenigwr gwleidyddiaeth Maes Glo De Cymru megis yr Athro Chris Williams, mae'r digwyddiadau yn derbyn golwg hanes llafur oherwydd ei natur o ysgrifennu'r hanes hynny.⁴⁵ Elfen cryf ydy'r defnydd o hanes o'r gwaelod ym mhob un o'r rhaglenni, ond efallai mai'r syniad o wrthrycholdeb yn cael ei golli wrth i ddehongliad asgell chwith yn unig sy'n domiwnyddu'r ffocws.

⁴² Butler (2010) (05:04).

⁴³ Smith (1984) (01:50).

⁴⁴ Edwards (2014) (30:40).

⁴⁵ Edwards (2012) (47:25).

Cryfder y rhaglenni yw eu cynnwys o amrywiaeth o elfennau i ddehongli hanes Tonypandy. Nad oes un ffordd o ddehongli terfysg Tonypandy ac mae'r amrywiaeth hynny wedi aros yn y cof poblogaidd. Mae'r rhaglenni wedi apelio at gynulleidfa amrywiol sydd wedi ymateb yn bositif i'r rhaglenni. Yn y bôn, mae hanes Tonypandy wedi cael ei roi nôl i'r Cymry trwy ei gyfleu ar y teledu. Yn amlwg, mae cyd-destun cynhyrchiad y rhaglenni wedi apelio at y gynulleidfa. Wrth i Smith creu ei raglen yng nghanol y streic glo, mae ef yn apelio ac yn rhoi cyfiawnder i'r rheini yn y streic i greu hanes eu hun trwy edrych yn ôl at Donypandy. Tra mae Butler ac Edwards wedi magu eu rhaglenni yn y Gymru newydd rydym yn byw ynddo heddiw i gymharu'r â'r 1980au. Adlewyrchiad o Gymru yn unfed ganrif ar hugain yw rhaglenni Butler ac Edwards, yn taflu syniadau heddiw nôl ar Donypandy a cheisio creu balchder yn hanes Cymru. Anfantais y rhaglenni yw'r defnydd o ddelwedd y dyn pwerus a chyfarwydd i gyflwyno'r rhaglenni. Nad oes modd dianc oddi wrth eu pŵer fel cyflwynwyr ond efallai mai gormod o'r naratif yn cael ei yrru ganddynt, mae'n ffres i gael mewnbwn haneswyr academiaidd i dorri dros y cyflwynwyr. Mae cymysgedd a chydbwysedd i'r ffordd mae'r rhaglenni yn pwysleisio ffactorau strwythurol yn erbyn rôl y dynion mawr. Wrth gwrs mae cofio'r chwedl o Churchill yn danfon y milwyr i Donypandy yn boblogaidd, ond mae rhaid cynnwys pobl eraill fel Mabon. Ar y cyd, mae'r esboniad o ffactorau strwythurol yn rhywbeth positif serch efallai rhethreg asgell chwith oddrychol. Y ffordd gryfach o adrodd terfysg Tonypandy yw'r fframwaith o 'hanes o'r gwaelod'. I raddau, mae'r dehongliad yma wedi ail-ddemocrateiddio'r hanes. Rydym yn cael gwir ddelwedd o sut oedd y ffactorau strwythurol yn effeithio pobl ac wedi gyrru'r terfysg. Na fydd Tonypandy yn cwmpo allan o gof y Cymry, yn enwedig pan mae pob rhaglen hanes Cymru wedi torri tir newydd wrth geisio dehongli'r digwyddiadau yn 1910. Fel natur hanes, mae'r arddull o ddehongli Tonypandy yn newid, a phob tro mae'r cof o'r digwyddiadau yn cryfhau.

Richard Davies, 709898@swansea.ac.uk

Written for *Hanes ar y Teledu (HIH264)*

Llyfryddiaeth

Rhaglenni Hanes Teledu ar Terfysg Tonypanyd:

Butler, Eddie, *The Tonypanyd Riots – A New History* (BBC Cymru: Caerdydd, 2010)

Edwards, Huw, ‘A New Beginning’, *The Story of Wales* (BBC Cymru: Caerdydd, 2012)

Edwards, Huw, ‘Llechi a Glo’, *Creu'r Cymru Fodern* (S4C: Caerdydd, 2014)

Smith, Dai, ‘Oh What a Lovely Riot’ *Wales! Wales?* (BBC Cymru: Caerdydd, 1984)

Deunydd Darllen Eilaidd:

Carradice, Phil, *The Llanelli Riots of 1910* (2011)

<http://www.bbc.co.uk/blogs/waleshistory/2011/08/llanelli_railway_riots_1911.html> [Ebrill 2 2014]

Cigognetti, Louisa a Pierre Sorlin, ‘History on Television: The Problem of Sources’ yn Ann Gray ac Erin Bell (goln), *Televising History: Mediating the Past in Postwar Europe* (Efrog Newydd: Palgrave Macmillan, 2010)

de Groot, Jerome, *Consuming History: Historians and Heritage in Contemporary Popular Culture* (Abingdon, Oxon; Efrog Newydd: Routledge, 2008)

Edwards, Huw, *Olrhain Hanes Cymru a'i Deulu ei Hun* (2014)

<http://www.s4c.co.uk/ffeithiol/c_creu-cymru-fodern.shtml> [Mynediad 3 Ebrill 2014]

Edwards, Huw, *Retelling the Story of Wales* (2012)

<http://www.bbc.co.uk/blogs/wales/posts/huw_edwards_retelling_story_of_wales>

[Mynediad 3 Ebrill 2014]

Gray, Ann ac Erin Bell, *History on Television* (Llundain; Efrog Newydd: Routledge, 2013)

- Hendriks, Gerda Jansen, 'How to Present Riots That Have Not Been Filmed' yn Graham Roberts a Philip M. Taylor (goln), *The Historian, Television and Television History* (Luton: Gwasg Prifysgol Luton, 2001)
- Hitt, Carolyn, *The Tonypandy Riots 100 Years On* (2010)
<<http://www.walesonline.co.uk/lifestyle/showbiz/tonypandy-riots-100-years-on>>
[Mynediad 1 Ebrill 2014]
- Jones, R Gerallt, 'Mirror Images', Planet 51 (1985)
- Jordonova, Ludmilla, *History in Practice* (Llundain: Arnold, 2000)
- Matthews, Gethin, 'Living with our History' [Adolygiad o *The Story of Wales*], *Agenda* 46 (Gwanwyn 2012)
- Miskell, Louise, 'The Riots of 1910 – Why do we Remember Only TonyPandy?' yn Huw V. Bowen (gol), *A New History of Wales: Myths and Realities in Welsh History* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2011)
- Morgan, Kenneth O., *Rebirth of a Nation: Wales 1880-1980* (Rhydychen: [Caerdydd]: Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1981)
- Smith, Dai, *Wales! Wales?* (Llundain: George Allen ac Unwin, 1984)